Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2546A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gref yn ystod y pandemig ac wedi cryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Mae'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gref yn ystod y pandemig ac wedi cryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 6

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 6

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i roi adlewyrchiad gwell o bwysau ar y gyllideb yn y tymor canolig a newidiadau a ragwelir yn y galw am wasanaethau 8

Nid oes unrhyw risgiau yn ôl pob golwg i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor mewn perthynas â'i ddefnydd o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sy'n dal i fod ar lefel gymharol uchel 9

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor yn gyson wedi tanwario'i gyllideb flynyddol ac mae'n disgwyl tanwario eto yn 2020-21 11

Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni'r mwyafrif o'i arbedion wedi'u cynllunio yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, yn gyffredin â chynghorau eraill, bydd adnabod a chyflawni arbedion yn y dyfodol yn fwy o her 13

Mae gan y Cyngor gymhareb hylifedd gadarnhaol sy'n ei roi mewn sefyllfa dda i gyflawni rhwymedigaethau cyfredol 15

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn yn ystod mis Mawrth 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

## Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae’r tabl isod yn nodi’r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi’u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | **Rhagweld gwariant yn gywir**<br>Dylai swyddogion sicrhau bod y Cyngor llawn yn cael ei adroddiad blynyddol ar alldro’r gyllideb i wella tryloywder a rhoi cyfleoedd i’r aelodau gymharu’r alldro â’r gyllideb wreiddiol a herio hynny. |

# Mae'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gref yn ystod y pandemig ac wedi cryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

7 Canfuom fel a ganlyn:

- ar y cyfan, cafodd y mwyafrif o wariant y Cyngor a'i golledion incwm a oedd yn gysylltiedig â COVID eu hariannu gan gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif na fydd oddeutu £0.5 miliwn o wariant ychwanegol/colledion incwm yn ystod 2020-21 wedi cael eu hariannu gan y cyllid ychwanegol.
- mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau cyllidebol penodol i adlewyrchu effaith y pandemig ar gyfer y tymor byr a chanolig. Mae wedi sefydlu cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi yn benodol ar gyfer costau adfer o COVID-19 yn 2021-22 o £3 miliwn.
- yn 2018-19 a 2019-20, fe gyflawnodd y Cyngor gyfradd uchel o ran casglu'r dreth gyngor (yn 2018-19 roedd yn 96.8% ac yn 2019-20 yn 96.3% o'r debyd casgladwy). Bellach mae'r Cyngor yn rhagweld cwymp yng nghyfraddau casglu'r dreth gyngor oherwydd niferoedd cynyddol o drigolion a oedd ar ffyrlo neu newydd gael eu gwneud yn ddi-waith o ganlyniad yn uniongyrchol i'r pandemig a newidiadau i'r ddeddfwriaeth ynghylch dulliau casglu. Mae'r Cyngor wedi cyllidebu ar gyfer gostyngiad o 0.5% yn y gyfradd gasglu ar gyfer 2021-22 i gydnabod yr effaith ddisgwyliedig.
- mae'r Cyngor yn cydnabod yn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) y bydd effaith yn y tymor canolig o ganlyniad i'r pandemig mewn meysydd gwasanaeth penodol. Yn arbennig, ar lefelau'r incwm o wasanaethau hamdden, parcio ceir a rhenti. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi y bydd cynaliadwyedd gwasanaethau megis digartrefedd a gofal cymdeithasol yn her.

**Arddangosyn 2: cost COVID-19 i’r Cyngor yn ystod 2020-21 yn ôl yr amcangyfrif**

Mae’r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a’r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19 yn ôl yr amcangyfrif a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi ei wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £15 miliwn |
| Swm yr incwm y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi’i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £6.5 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £21 miliwn |
| Cost COVID-19 i’r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. | £0.5 miliwn |

## Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i roi adlewyrchiad gwell o bwysau ar y gyllideb yn y tymor canolig a newidiadau a ragwelir yn y galw am wasanaethau

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau, mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.

Canfuom fel a ganlyn:


- mae gan y Cyngor SATC gymeradwy ar gyfer y cyfnod rhwng 2021-22 a 2024-25, a oleuwyd gan yr asesiad diweddaraf o risgiau corfforaethol sy'n darparu asesiad lefel uchel o'r heriau ariannol dros y cyfnod hwnnw. Caiff y SATC ei diweddaru'n flynyddol, gan gael ei chymeradwyo ym mis Chwefror bob blwyddyn.
- mae'r SATC yn nodi 13 o egwyddorion y gwahoddir aelodau i'w defnyddio fel sail i asesu cadernid y strategaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ei system rheolaeth ariannol fel elfen allweddol i roi cymorth i gyflawni cynlluniau ariannol a lliniaru risgiau corfforaethol, a phenderfyniadau ynghylch buddsoddiadau cyfalaf sy'n lliniaru unrhyw risgiau statudol gan ystyried yr adenillion ar fuddsoddiadau ac arfarniadau cadarn o'r opsiynau. Ar ben hynny, mae'r SATC yn ystyried y risg na fydd cynigion ynghylch gostyngiadau i'r gyllideb yn llwyddiannus a'r risgiau na fydd costau COVID-19 yn y dyfodol yn cael eu hariannu gan gyllid gan Lywodraeth Cymru.
- mae'r Cyngor wedi rhagfynegi y bydd ganddo fwlch o £15.575 miliwn yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf. Mae'r SATC yn seiliedig ar dybiaethau rhesymol ac asesiad o setliadau yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio senarios gorau, gwaethaf a mwyaf tebygol. Yn 2020-21 (4.7% £9.18 miliwn) a 2021-22 (4.3% £9.064 miliwn) mae'r Cyngor wedi cael setliadau mwy hael na'r disgwyl, gan leddfu rhywfaint o bwysau'r gostyngiadau yn y gyllideb.
- yn dilyn y sylwadau a wnaed gennym y llynedd, mae'r Cyngor wedi datblygu ei SATC ymhellach yn 2021-22. Cawsom ein sicrhau bod aelodau wedi archwilio'r gyllideb a chraffu arni'n fanwl, ac rydym yn nodi yr ymdriniwyd â meysydd ar gyfer gwella fel a ganlyn:
  - mae amcangyfrifon o effaith bosibl newidiadau yn y galw am wasanaethau wedi cael eu cynnwys yn unrhyw ddiwygiadau i gyllidebau sylfaenol. Er enghraifft, bydd amcanestyniadau ar gyfer

newidiadau demograffig, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio a nifer gynyddol o bobl ifanc ag anableddau cymhleth sy'n byw i fod yn oedolion, yn ychwanegu fesul tipyn at y galw am ofal.

– gwerthusiadau o berfformiad ariannol yn y gorffennol, megis tanwariannau mewn cyllidebau a defnydd is nag a ragwelwyd o'i gronfeydd wrth gefn.

**Arddangosyn 3: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24 o £15.575 miliwn**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y tair blynedd ganlynol.




# Nid oes unrhyw risgiau yn ôl pob golwg i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor mewn perthynas â'i ddefnydd o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sy'n dal i fod ar lefel gymharol uchel

## Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

9 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o

ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

Canfuom fel a ganlyn:

- mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor yn ganran gymharol uchel o'r gyllideb refeniw net, sef 20.5% yn 2019-20, sy'n golygu mai Pen-y-bont ar Ogwr sydd â'r seithfed ganran uchaf yng Nghymru.
- am y pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2020, mae cronfeydd refeniw wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu o £59.1 miliwn i £64.6 miliwn.
- am y pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2020, mae cronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf y Cyngor wedi gostwng ychydig o £18.3 miliwn i £17.9 miliwn.
- fel a ddangosir yn **Arddangosyn 4**, mae lefel y Cyngor o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi aros yn gymharol sefydlog dros y pedair blynedd ddiwethaf, ond mae wedi cynyddu cyfanswm ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn 2020-21 o ychydig dros £27 miliwn. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i gael peth cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Arddangosyn 4: cost net gwasanaethau o'i gymharu â swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [2] | 284.7 | 299.1 | 300.4 | 315.0 | 310 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [3] | 59.1 | 56.4 | 56.9 | 64.6 | 92.3 |


[2] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[3] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau [4] | 20.8% | 18.9% | 18.9% | 20.5% | 29.8% |
| Safle o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru | 8/22 | 9/22 | 8/22 | 7/22 | Amherthnasol |

**Arddangosyn 5: cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau**

Mae'r Cyngor wedi cynnal lefel o gyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd rhwng 18.9% a 20.8% o gost net gwasanaethau.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

## Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor yn gyson wedi tanwario'i gyllideb flynyddol ac mae'n disgwyl tanwario eto yn 2020-21

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

10 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

[4] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

11 Yr hyn a ganfuom

- mae'r Cyngor wedi tanwario yn erbyn ei gyllideb refeniw ym mhob un o'r pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2020, gyda chyfanswm tanwariant o £35.653 miliwn dros y cyfnod hwn o bedair blynedd. Mae hefyd yn rhagfynegi tanwariant yng nghyllideb refeniw 2020-21 o £6.490 miliwn (gweler **Arddangosyn 6**), yr effeithiwyd arno gan gyllid ychwanegol sylweddol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (gweler **Arddangosyn 2**).
- er bod tanwariant ar y cyfan, mae hyn wedi celu gorwariannau rheolaidd yn y gwasanaethau Addysg a Chymorth i Deuluoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Er enghraifft, yn 2020-21, o ran y sefyllfa yn chwarter tri mae'r Cyngor yn rhagfynegi y bydd yn gorwario o £1.327 miliwn a £0.812 miliwn yn y drefn honno.
- mae swyddogion wedi egluro'n flaenorol bod cyfran sylweddol o danwariannau'r Cyngor bob blwyddyn i'w priodoli i gael arian grant ychwanegol annisgwyl gan Lywodraeth Cymru, sy'n tueddu i ddod i law tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol ac y mae felly'n anodd cyllidebu ar eu cyfer. Felly yr oedd hi hefyd yn 2019-20 a 2020-21.
- am y pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2020, mae'r Cyngor wedi tanwario yn erbyn ei gyllidebau cyfalaf blynyddol cymeradwy gwreiddiol o £24.143 miliwn. O ran y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 3 (31 Rhagfyr 2020) mae'r Cyngor wedi tanwario ar gyllideb gyfalaf gymeradwy wreiddiol 2020-21 o £43.859 miliwn. Deallwn fod y tanwariannau hyn i'w priodoli'n hanesyddol i lithriant o ran cyflawni rhai prosiectau cyfalaf, gyda chostau, ac felly'r gyllideb, yn trosglwyddo i flynyddoedd ariannol dilynol. Mae'r tanwariant hyd at 31 Rhagfyr ar gyfer 2020-21 eto i'w briodoli i lithriant, a'r tanwariant hwnnw'n fwy sylweddol nag yn y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf o ganlyniad i effaith COVID-19 ar y gallu i fwrw ymlaen â phrosiectau cyfalaf fel a fwriadwyd.
- nododd ein hasesiad o gynaliadwyedd ariannol yn 2019-20, unwaith y mae blwyddyn ariannol wedi mynd heibio, fod adroddiad alldro'r gyllideb yn cael ei ystyried gan y Cabinet ac yna gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol. Fodd bynnag, er bod y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r gyllideb flynyddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, nid yw'n cael yr adroddiad blynyddol ar alldro'r gyllideb. Byddai hyn yn rhoi'r darlun llawn o berfformiad ariannol i aelodau'r Cyngor i'w galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus. Mae hyn yn wir eto ar gyfer 2020-21.

**Arddangosyn 6: swm y gorwariant/(tanwariant) yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pedair blynedd ddiwethaf (wedi'i gymryd o adroddiad alldro'r gyllideb a gyflwynir yn flynyddol i'r Cabinet ym mis Mehefin) a hefyd y sefyllfa diwedd blwyddyn a ragamcanir ar gyfer 2020-21 yr adroddwyd wrth y Cabinet arni fel rhan o sefyllfa monitro'r gyllideb yn chwarter 3 ar gyfer 2020-21 ar 19 Ionawr 2021.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 (rhagamcanol) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau | 254.891 | 258.093 | 265.984 | 270.809 | 286.885 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol | 243.000 | 251.639 | 258.131 | 261.354 | 280.395 |
| Swm y (tanwariant)/gorwariant ar y cyfan | (11.891) | (6.454) | (7.853) | (9.455) | (6.490) |
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | (4.7%) | (2.5%) | (2.9%) | (3.5%) | (2.3%) |

## Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni'r mwyafrif o'i arbedion wedi'u cynllunio yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, yn gyffredin â chynghorau eraill, bydd adnabod a chyflawni arbedion yn y dyfodol yn fwy o her

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

12 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

13 Yr hyn a ganfuom:

- mae'r Cyngor yn dal i fod â hanes da o gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio yn ystod y flwyddyn, er bod y targedau arbedion blynyddol

dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu gostwng ac wedi bod ryw £5 miliwn yn is (yn 2019-20) na'r rhai a bennwyd ar gyfer 2015-16.

- mae'r alldro ar gyfer 2019-20 a'r sefyllfa diwedd blwyddyn a ragamcanir ar gyfer 2020-21 (gweler **Arddangosyn 7**) yn dangos bod y Cyngor yn cyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio, er enghraifft, yn 2018-19 cyflawnwyd £5.615 miliwn (92%) ac yn 2019-20 cyflawnwyd £6.815 miliwn (89%) o arbedion wedi'u cynllunio.
- mae'r targed o ran cyfanswm yr arbedion blynyddol wedi gostwng yn sylweddol ar gyfer 2020-21, sef £2.413 miliwn ac ar gyfer 2021-22, sef £1.76 miliwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r setliadau ariannu ffafriol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnodau hyn (gweler yr adran ar y strategaeth ariannol).
- mae targedau arbedion rhagamcanol a nodir yn y SATC ar gyfer y cyfnod rhwng 2021-22 a 2024-25 yn dangos bod y duedd uchod yn mynd i gael ei gwrthdroi gan mai oddeutu £7 miliwn yw'r targedau blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2024-25. Mae hyn yn adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru oherwydd y pandemig. Bydd y targedau uwch hyn yn creu heriau cynyddol i'r Cyngor wrth edrych tua'r dyfodol.

**Arddangosyn 7: arbedion a gyflawnwyd fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd o 2016-17 yn ogystal â ffigyrau a amcangyfrifir ar gyfer 2020-21.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau | 7.477 | 5.852 | 6.123 | 7.621 | 2.413 |
| Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau | 5.632 | 4.012 | 5.615 | 6.815 | 1.923 |
| Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau | 1.845 | 1.840 | 0.508 | 0.806 | 0.490 |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 75% | 69% | 92% | 89% | 80% |

Ffynhonnell – Adroddiad alldro'r gyllideb ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20 a gyflwynir yn flynyddol i'r Cabinet ym mis Mehefin, sefyllfa diwedd blwyddyn a ragwelir ar gyfer 2020-21 yr adroddwyd wrth y Cabinet arni ar 19 Ionawr 2021.

## Mae gan y Cyngor gymhareb hylifedd gadarnhaol sy'n ei roi mewn sefyllfa dda i gyflawni rhwymedigaethau cyfredol

### Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

14 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

15 Canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor wedi cynnal cymhareb hylifedd dda dros y cyfnod rhwng 2015-16 a 2019-20 (gweler **Arddangosyn 8**). Ystyrir bod cymhareb hylifedd rhwng 1 a 3 yn iachus ac mae'n dynodi bod y Cyngor mewn iechyd ariannol da, gan feddu ar y gallu i dalu rhwymedigaethau ei ddyledion cyfredol.
- mae cymhareb hylifedd y Cyngor wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd ar draws holl Gynghorau Cymru dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2015-16 a 2019-20 (gweler **Arddangosyn 8**), sy'n dynodi ei fod mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf.

**Arddangosyn 8: cymhareb hylifedd (cyfalaf gweithio) rhwng 2015-16 a 2019-20**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol [5] | £53.5m | £59.9m | £57.8m | £56.7m | £68.3m |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [6] | £34.9m | £29.5m | £36.9m | £36.3m | £36.4m |

[5] Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddelir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth

[6] Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn.

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhareb Hylifedd (CH) | 1.5 | 2.0 | 1.6 | 1.6 | 1.9 |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg .